# ATODIAD STRATEGAETH CYNHWYSIANT

Cyngor Caerdydd • 2025



CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF CAERDYDD

# **Adroddiad Cynhwysiant Addysg –** Crynodeb o'r Canfyddiadau

## Trosolwg

Rhannodd 223 o ddisgyblion o 3 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd yng Nghaerdydd eu barn ar gynhwysiant mewn addysg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn 11–15 oed (81%), gyda rhaniad cytbwys rhwng y rhywiau (53% yn ferched, 45% yn fechgyn). Mae'r arolwg yn archwilio profiadau o ran diogelwch, tegwch, perthnasoedd, dysgu a chyfranogiad. Er nad ydynt yn ystadegol gynrychioliadol, mae'r canfyddiadau'n tynnu sylw at flaenoriaethau plant a phobl ifanc ar gyfer system addysg fwy cynhwysol

## Canfyddiadau Cadarnhaol Allweddol

- **Perthnasoedd a Pherthyn:** Roedd 85% yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod gan athrawon ("Mae athrawon yn dweud helo ac yn gwybod fy enw"), ac roedd 77% yn teimlo bod eu diwylliant, eu hiaith neu eu crefydd yn cael eu parchu.
- **Oedolion Dibynadwy:** Dywedodd 68% fod ganddynt o leiaf un oedolyn y gallent ymddiried ynddo yn yr ysgol.
- **Ymgysylltu**: Dywedodd 53% eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn gwersi oherwydd bod athrawon yn gwrando arnynt, a'u bod yn mwynhau'r gweithgareddau.
- **Diogelwch o ran Hunaniaeth:** Roedd 54% yn teimlo eu bod yn cael eu hannog i fod yn nhw eu hunain yn yr ysgol.

## Prif Heriau a Nodwyd

- **Tegwch a Chynrychiolaeth:** Dim ond 32% oedd yn teimlo bod posteri ac arwyddion yn adlewyrchu pobl fel nhw; roedd 52% yn teimlo bod y rheolau'n deg.
- **Disgyblaeth Gyhoeddus:** Dywedodd 50% eu bod wedi cael stŵr o flaen eraill; roedd 39% yn credu bod embaras cyhoeddus yn broblem ddifrifol iawn.
- **Llais a Chyfranogiad:** Roedd bron i hanner yn teimlo mai dim ond myfyrwyr hyderus neu boblogaidd oedd yn cael eu dewis i gynrychioli'r dosbarth; roedd 46% eisiau cyfleoedd gwell i ddylanwadu ar benderfyniadau.
- **Rhwystrau i Ddysgu:** Credai 33% fod disgwyl i rai disgyblion fethu, a dywedodd 34% fod ofn embaras wedi eu hatal rhag gofyn am help.
- **Gofodau a Chlybiau:** Nododd llawer ohonynt fod diffyg mannau tawel ar gael, a'u bod yn cael eu heithrio o glybiau neu dripiau oherwydd cost, hyder, neu wahaniaethu.

## Yr hyn sydd bwysicaf yn ôl y plant

- Teimlo'n ddiogel, cael ffrindiau, a mynediad at oedolion dibynadwy.
- Cael eu trin yn deg, parchu eu hunaniaeth, a bod pobl yn gwrando arnynt.
- Mwynhau dysgu a derbyn cymorth heb embaras.
- Cyfle cyfartal i bawb, gan gynnwys chwarae a gweithgareddau allgyrsiol

## Blaenoriaethau ar gyfer Cynhwysiant

1. **Rheolau Teg ac Amgylcheddau Croesawgar** – Rheolau clir a chyson, a mannau tawel a diogel.
2. **Llais a Chyfranogiad** – Dylai pob disgybl gael cyfle i ddweud ei ddweud, nid dim ond y rhai hyderus neu boblogaidd.
3. **Perthnasoedd Cefnogol** – Rhaid i oedolion sylwi pan fydd plant yn cael trafferth, ac ymateb gyda charedigrwydd.
4. **Dysgu Cynhwysol** – Dulliau addysgu hyblyg, disgwyliadau uchel, a chefnogaeth heb stigma.
5. **Amser Egwyl ac Amser Rhydd** – Mynediad cyfartal i glybiau, tripiau, a mannau diogel ar gyfer chwarae tawel ac egnïol.

## Casgliad

Mae plant a phobl ifanc yng Nghaerdydd eisiau lleoliadau addysg lle maent yn teimlo›n ddiogel, yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u cefnogi, ac yn teimlo bod pobl yn gwrando arnynt. Maent yn gwerthfawrogi tegwch, perthnasoedd cadarnhaol gydag oedolion, cyfleoedd i gymryd rhan, a chyfleoedd cyfartal i lwyddo y tu fewn a thu allan i›r ystafell ddosbarth. Dylai›r mewnwelediadau hyn lywio›r Strategaeth Cynhwysiant Addysg i sicrhau bod ysgolion yn lleoedd lle mae pob plentyn yn teimlo ei fod yn perthyn.

# **Arolwg Rhieni a Gofalwyr -** Crynodeb Gweithredol

Casglodd yr arolwg ar gynhwysiant yn ysgolion Caerdydd, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil ac Ymgysylltiad Caerdydd (CREC), adborth gan 332 o rieni a gofalwyr o bob rhan o Gaerdydd. Mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn:

## **Thema 1:** Ymdeimlad o Berthyn (C4 a C5)

**C4. Profiad yn yr ysgol:**

- Nodwyd lefelau uchel o gytuno ar gyfer y datganiadau 'Mae gan fy mhlentyn ffrindiau yn yr ysgol' (85%), 'Mae fy mhlentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol' (84.4%), a 'Mae fy mhlentyn yn hapus yn yr ysgol' (79.7%).
- Roedd meysydd sy'n peri pryder yn cynnwys ymdopi â lefel yr addysgu (17.4% yn anghytuno) a chyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol (16.9% yn anghytuno).

**C5. Yr ysgol:**

- Nodwyd lefelau uchel o gytuno ar gyfer y datganiadau 'Mae athro fy mhlentyn yn gofalu am y disgyblion' (83.8%), 'Mae gan ysgol fy mhlentyn werthoedd clir' (81.0%) ac 'Mae ysgol fy mhlentyn yn darparu amgylchedd croesawgar i rieni ac yn ymateb yn gadarnhaol i sylwadau/ adborth gan rieni' (77.8%).
- Roedd meysydd sy'n peri pryder yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer 'pontio o un ysgol i'r llall, o fewn blwyddyn ysgol' (21.7% yn anghytuno), 'cyfleoedd i fy mhlentyn rannu ei farn â'r ysgol' (19.4%) ac 'Mae dull cyfathrebu'r ysgol â rhieni a gofalwyr yn hygyrch' (18.4%).

## **Thema 2:** Cymorth Ychwanegol (C6 a C7)

- Roedd gan **22.6%** o'r ymatebwyr blant ag anghenion dysgu ychwanegol, ac roedd gan **16%** ohonynt blant â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) (C6).
- Nodwyd **lefel uchel o gytuno** o ran gwybod sut i godi pryderon yn ymwneud â diffyg cynnydd eu plant (85.6%) neu efallai bod angen cymorth ychwanegol arnynt / bod anghenion dysgu ychwanegol ganddynt (81.8%, C7), ac mae saith o bob deg yn teimlo bod 'yr ysgol yn rhoi adborth da ar y cynnydd y mae fy mhlentyn yn ei wneud' (69.6%, C7).
- Roedd y lefelau uchaf o **anghytuno** yn ymwneud ag effeithiolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (38.1% yn anghytuno), gallu'r ysgol i weithio gyda gwasanaethau cymorth allanol (29.4%), a bod 'plant sydd â dawn benodol yn cael anogaeth a chyfleoedd ar gyfer gwaith mwy heriol ac i ragori' (28.2%).

## **Thema 3:** Presenoldeb, Ymddygiad a Gwaharddiadau (C8)

- Nodwyd **lefelau uchel o gytuno** ar gyfer y datganiad 'Mae'r ysgol yn pwysleisio pwysigrwydd presenoldeb da' (87.9%), yn dathlu cyflawniadau cadarnhaol (76.2%), ac mae ganddi 'bolisi clir ar ymddygiad plant' (74.4%).
- Roedd **meysydd sy'n peri pryder** yn cynnwys ymatebolrwydd y cwricwlwm i anghenion plant (21.4% yn anghytuno) ac effeithiolrwydd yr ysgol wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwael (20.8% yn anghytuno) a bwlio (19% yn anghytuno).

## **Thema 4:** Staff Ysgol

Cytunodd yr ymatebwyr fod staff ysgol yn dangos esiampl dda (78.7%), yn fedrus ac yn llawn cymhelliant (74.8%) ac yn amrywiol, gan adlewyrchu'r gymuned ehangach (63.1%).

# Dangosyddion Cynhwysiant

Mae'r nodweddion canlynol wedi'u cynnwys gan ddefnyddio data o CapitaOne:

- **Oed** - Nifer a oedd yn oedran penodol ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae'r ffocws ar 4-15 oed ond, lle maent ar gael, mae ystodau oedran eraill hefyd wedi'u cynnwys.
- **Rhyw** - Wedi'i baru gan ddefnyddio cofnodion presenoldeb. Wedi'i safoni fel Canran y Myfyrwyr o'r rhyw hwnnw.
- **Math o Ddarpariaeth** - Wedi'i gyfrifo fel Canran y Myfyrwyr sy'n mynychu'r math o ysgol. Gall niferoedd bach mewn rhai o'r grwpiau a rhai disgyblion sydd wedi'u cofrestru yn ddeuol effeithio ar gywirdeb y data hwn.
- **Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Cyn Ionawr 2022, roedd plant oedran ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu categoreiddio gan ddefnyddio AAA. Ers hynny, mae diffiniad a chategoreiddio newydd wedi bod yn cael eu defnyddio, gyda'r nod o sefydlu achosion newydd a throsglwyddo pob dyfarniad AAA i Gynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer plant a phobl ifanc 0-25 oed. Wedi'i gyfrifo fel Canran y Myfyrwyr sydd â'r lefel nodedig o anghenion dysgu ychwanegol sy'n bodloni'r dangosydd perfformiad.

Mae'r nodweddion canlynol a gafwyd o CYBLD 2024 wedi'u cynnwys:

- **Ethnigrwydd -** Wedi'i nodi fel Gwyn Prydeinig (WRBI), Anhysbys (heb ei baru, NOBT a REFU) neu Brydeinig nad ydynt yn Wyn (pob grŵp arall). Wedi'i safoni fel Canran y Myfyrwyr o'r ethnigrwydd hwnnw.
- **Ethnigrwydd (Sipsiwn / Teithiwr)** - Wedi'i safoni fel Canran y Myfyrwyr o'r ethnigrwydd hwnnw. Mae niferoedd bach yn fwy agored i siawns a gwerthoedd eithafol.
- **Cymhwysedd Prydau Ysgol Am Ddim (cPYADd)** - Wedi'i nodi fel Cymwys, Ddim yn Gymwys neu Anhysbys. Wedi'i safoni fel Canran y Myfyrwyr o'r cymhwysedd hwnnw.
- **Cyfeiriad Cartref** - Wedi'i safoni fel Nifer fesul 1,000 o bobl 5-18 oed sy'n byw yn y ward honno yn seiliedig ar Gyfrifiad 2021.
- **Cyfeiriad Cartref (Amddifadedd)** - Wedi'i safoni fel Nifer fesul 1,000 o blant a phobl ifanc 5-19 oed sy'n byw mewn AGEHI ac yna wedi'i grwpio yn ôl amddifadedd o'i gymharu â Chymru gan ddefnyddio MALIC (2019).

# Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mae'r darlun hwn yn rhoi arwydd o amddifadedd cymharol ar draws Caerdydd. Mae'r ardaloedd gwyrdd ymhlith y 50% ardal yng Nghymru â'r amddifadedd lleiaf, lle mae 30,598 o blant 5-19 oed yn byw. Mae'r ardaloedd mewn coch tywyll ymhlith y 10% ardal yng Nghymru â'r amddifadedd mwyaf, lle mae 15,654 o blant 5-19 oed yn byw – hanner nifer y plant ond llawer llai na hanner yr arwynebedd.





**Fig 2.** Map AGEHI o Gaerdydd sy'n dangos 6 lefel amddifadedd o gymharu â Chymru yn seiliedig ar MALIC 2019

# Presenoldeb

Mesurwyd presenoldeb ar gyfer plant oedran ysgol statudol ar gyfer Medi 2024 i Chwefror 2025 yn seiliedig ar ddata CapitaOne. Defnyddiwyd tri metrig: presenoldeb cyffredinol (uwch yn well); presenoldeb isel (nifer gyda phresenoldeb cyffredinol o dan 80% yn y 6 mis diwethaf); ac absenoldeb cyson (nifer gyda phresenoldeb cyffredinol o dan 50% yn y 6 mis diwethaf).

**Oed** - Nid oes tuedd glir mewn grwpiau oedran ifanc, ond ar ôl 11 oed mae presenoldeb yn tueddu i ostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn

**Rhyw** - Dim effaith sylweddol ar bresenoldeb. Fodd bynnag, o'u cyfuno ag oedran, roedd presenoldeb merched 13–15 oed yn sylweddol is na lefel eu cyfoedion gwrywaidd.


**Ethnigrwydd** - Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng grwpiau gwyn Prydeinig a grwpiau Prydeinig nad ydynt yn wyn. Dangosodd disgyblion Sipsiwn/Teithwyr gynnydd 2.5 gwaith mewn absenoldeb, cynnydd pedair gwaith mewn presenoldeb isel, a chynnydd 4.8 gwaith mewn absenoldeb cyson. Roedd gan ddisgyblion Tsieineaidd, Du ac Asiaidd i gyd bresenoldeb uwch na chyfartaledd Caerdydd.


**Amddifadedd** - Wrth i amddifadedd MALIC gynyddu, mae presenoldeb yn gostwng. Gwelwyd hyn hefyd gyda disgyblion cPYADd a oedd 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod â phresenoldeb isel a 3.6 gwaith yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson.


**Darpariaeth** - Mae gan ysgolion cynradd bresenoldeb ychydig yn uwch nag ysgolion uwchradd. Mae cyfraddau presenoldeb ar eu hisaf mewn ysgolion arbennig, AHY ac UCD.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Mae disgyblion ag ADY 2.4 gwaith yn fwy tebygol o fod â phresenoldeb isel a 3.3 gwaith yn fwy tebygol o fod yn absennol yn gyson o'i gymharu â disgyblion heb ADY.

**Ardal Leol** - Dangosodd Trelái a Chaerau bresenoldeb is ar draws pob un o'r tri metrig.



# Gwaharddiadau

Mesurwyd gwaharddiadau ar gyfer plant ysgol ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2023-24 yn seiliedig ar ddata CapitaOne. Defnyddiwyd dau fetrig nifer y gwaharddiadau a nifer y diwrnodau yr oeddent wedi'u gwahardd.

**Oed** - O 9 oed ymlaen, mae gwaharddiadau yn cynyddu'n sylweddol gan gyrraedd uchafbwynt ymhlith plant 13 oed. Roedd gan bob grŵp oedran ysgol uwchradd fwy o waharddiadau nag unrhyw grŵp oedran ysgol gynradd.

**Rhyw** - Mae bechgyn wedi'u gwahardd 1.9 gwaith yn amlach na merched ac yn colli 2.1 gwaith mwy o ddiwrnodau trwy gael eu gwahardd.


**Ethnigrwydd** - Mae disgyblion Gwyn Prydeinig wedi'u gwahardd 1.9 gwaith yn amlach ac yn colli 1.8 gwaith yn fwy o ddyddiau na disgyblion Prydeinig nad ydynt yn wyn. Mae disgyblion Sipsiwn/Teithwyr wedi'u gwahardd 3.2 gwaith yn amlach na disgyblion eraill ac yn colli 3.1 gwaith yn fwy o ddyddiau


**Amddifadedd** - Wrth i amddifadedd gynyddu, mae nifer y gwaharddiadau a'r diwrnodau yr oeddent wedi'u gwahardd hefyd yn cynyddu, gyda dysgwyr sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol 7.3 gwaith yn fwy tebygol o gael eu gwahardd, gan golli 4.6 gwaith yn fwy o ddiwrnodau na'r dysgwyr â'r amddifadedd lleiaf. Gwelwyd hyn hefyd gyda dysgwyr cPYADd a oedd â 5.2 gwaith yn fwy o waharddiadau ac wedi'u gwahardd am 4.7 gwaith yn fwy o ddiwrnodau na'r rhai nad oeddent yn gymwys.


**Darpariaeth** - Ysgolion cynradd sydd â'r lleiaf o waharddiadau, ac yna ysgolion uwchradd. Roedd gan ysgolion arbennig fwy o waharddiadau ond roedd ganddynt lai o waharddiadau fesul 1,000 nag UCD, ac mae'r ddau yn debyg i'w gilydd o ran nifer y diwrnodau yr oedd disgyblion wedi'u gwahardd.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Roedd 8 gwaith yn fwy o ddisgyblion ag ADY wedi'u gwahardd ac roeddent wedi'u gwahardd am 4.7 gwaith yn fwy o ddyddiau na disgyblion heb ADY

**Ardal Leol** - Trelái, Caerau a'r Sblot oedd â'r mwyaf o waharddiadau pan gafodd hynny ei safoni fesul 1,000 o ddisgyblion







Nifer fesul 1000 rhwng 5 a 18 oed

# Cynlluniau Cymorth Bugeiliol

Mesurwyd Cynlluniau Cymorth Bugeiliol (CCBau) gan ddefnyddio'r nifer a oedd ar agor ar 31 Ionawr 2025, gan ddefnyddio data gan CapitaOne trwy'r Prosiect Golwg Unigol.


**Oed** - Wrth i oedran gynyddu, mae nifer y CCBau hefyd yn cynyddu.




**Rhyw** - Mae bechgyn 2.2 gwaith yn fwy tebygol o gael CCB na merched.

**Ethnigrwydd** - Mae disgyblion Gwyn Prydeinig 1.8 gwaith yn fwy tebygol o gael CCB na Phrydeinwyr nad ydynt yn wyn pan gaiff ei safoni fel canran y myfyrwyr. Roedd dysgwyr sy'n Sipsiwn / Teithwyr 2 waith yn fwy tebygol o gael CCB nag eraill.


**Amddifadedd** - Wrth i amddifadedd MALIC gynyddu, mae cyfradd y CCBau hefyd yn cynyddu, gyda'r dysgwyr sydd â'r amddifadedd economaidd-gymdeithasol mwyaf yn eu cael 11.1 gwaith yn fwy aml na'r 50% â'r amddifadedd lleiaf. Gwelwyd hyn hefyd gyda dysgwyr cPYADd a oedd 6.7 gwaith yn fwy tebygol o gael CCB na'r rhai nad oeddent yn gymwys.




**Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Roedd disgyblion ag ADY 18.6 gwaith yn fwy tebygol o fod â CCB na disgyblion heb unrhyw fath o anghenion dysgu ychwanegol.





**Ardal Leol** - Trelái, Caerau a'r Sblot oedd â'r nifer fwyaf o CCBau fesul 1,000 o ddysgwyr rhwng 5 a 18 oed.




# Cyrhaeddiad

Mesurwyd cyrhaeddiad gan ddefnyddio 4 dull gwahanol, y 9 mesur wedi'i gapio (3 + 6), canran CA4 yn cyflawni 5+ A/A*, canran CA4 yn cyflawni L1 a chanran CA4 yn cyflawni L2. Mae'r data yn seiliedig ar ganlyniadau 2024.

**Rhyw** - Mae merched yn perfformio ychydig yn well na bechgyn o ran Sgôr wedi'i Gapio 9, sy'n gwthio eu gradd gyfartalog ychydig yn uwch na C tra bod bechgyn ychydig yn is na C. Mae hyn yn fwyaf nodedig mewn Llythrennedd (+4.9) a'r Her Sgiliau (+2.6).Mae cyfran uwch (29.9% o'i gymharu â 21.4%) o ferched wedi cyflawni o leiaf 5 A/A*, sy'n gynnydd 40%.






**Amddifadedd** - Roedd disgyblion sy'n gymwys ar gyfer PYADd yn cael gradd D ar gyfartaledd, o'i gymharu â gradd C ar gyfer y rhai nad ydynt yn gymwys. Roedd hyn yn amlwg ar draws y 4 pwnc yr edrychwyd arnynt: Llythrennedd (-10.8), Rhifedd (-12.4), Gwyddoniaeth (-14.6) a'r Her Sgiliau (-5.4). Dim ond 9% o ddisgyblion PYADd cymwys a gyflawnodd 5 A/A* o'i gymharu â 33.5% o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys.




**Darpariaeth -** Roedd gan ddysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol sgorau sylweddol is o'i gymharu â gweddill Caerdydd ar draws y pedwar pwnc ffocws: Llythrennedd (-28.9), Gwyddoniaeth (-26.9), Rhifedd (-25.9), a'r Her Sgiliau (-21.2). Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd Lefel 1 hefyd yn sylweddol is ar gyfer AHY: Saesneg (2x yn is), Rhifedd (2.1x), a Gwyddoniaeth (3.1x). Mewn cymhariaeth bellach, roedd AHY wedi lleihau deilliannau yn sylweddol mewn cyflawniad Lefel 1: Saesneg (9.6x is), Rhifedd (10x), a Gwyddoniaeth (11.5x).

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Ar gyfartaledd, perfformiodd disgyblion ag ADY yn is na'r rhai heb ADY, gan ddangos gostyngiad o radd C ar gyfartaledd i E. Gwelwyd hyn ar draws pob un o'r 4 pwnc mewn ffocws; Gwyddoniaeth (-16.5), Rhifedd (-15.4), Llythrennedd (-14.3) a'r Her Sgiliau (-9.1).



# Deilliannau 16-24 oed

Mesurwyd y deilliannau trwy ystyried anweithgarwch economaidd, cymwysterau ar lefel 4 neu uwch, dim cymwysterau (Cyfrifiad 2021 ar gyfer pob un o'r rhain), y rhai a oedd yn hawlio Credyd Cynhwysol a chanran mewn cyflogaeth (Stat-Xplore ar gyfer y ddau ddiwethaf).


**Rhyw -** Nid oes gwahaniaeth mewn anweithgarwch economaidd na chanran sy'n hawlio Credyd Cynhwysol. Mae menywod ychydig yn fwy cymwys (23.6% o'i gymharu â 21%), ac nid oes gan gyfran is unrhyw gymwysterau (6.3% o'i gymharu â 7.9%).


**Ethnigrwydd** - Roedd pobl ifanc du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16-24 oed yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar (64% o'i gymharu â 54.6%) a heb unrhyw gymwysterau (8.5% o'i gymharu â 6.4%). Er gwaethaf hyn, roedd gan bobl ifanc du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 16-24 oed gyfran uwch (25.2% o'i gymharu â 21.1%) o bobl sy'n gymwys i lefel 4 neu uwch. Roedd lefelau anweithgarwch economaidd yn uchel iawn (84.2%) i'r rhai sy'n perthyn i'r grŵp ethnig Gwyn: Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig.


**Anabledd** - Roedd preswylwyr ag anabledd yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar na'r rhai heb anabledd (62.4% o'i gymharu â 56.6%). Roedd cyfran y preswylwyr 16-24 oed heb unrhyw gymwysterau bron ddwywaith mor uchel ar gyfer y rhai ag anabledd (11.4%) na'r rhai heb anabledd (6.3%).


**Amddifadedd -** Roedd cyfran y preswylwyr 16-24 oed a oedd yn gymwys i lefel 4 neu uwch ar ei hisaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf. Roedd cyfran y preswylwyr 16-24 oed heb unrhyw gymwysterau ar ei huchaf yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (17.2%). Roedd y ffigur ar gyfer yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf (19.7%) bron i bum gwaith yn fwy na'r ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (4.2%) ar gyfer hawlio Credyd Cynhwysol.

**Ardal Leol** - Roedd gan ardaloedd â chanran is o bobl cymwys (i lefel 4 neu uwch), a chanran uwch heb unrhyw gymwysterau, ganran uwch yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn tynnu sylw at bwysigrwydd cymwysterau mewn annibyniaeth economaidd yn y dyfodol. Roedd anweithgarwch economaidd hefyd yn uchel yn yr ardaloedd hyn ond nid ar ei uchaf. Roedd Canol Caerdydd (yn ôl pob tebyg wedi'i ddylanwadu gan fyfyrwyr prifysgol) yn uwch.







# Hysbys i'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid


Mae cyfranogiad y gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei fesur fel nifer y rhaglenni Atal ac Ymyrryd yn Gynnar (AYG) a ddechreuwyd yn y 6 mis blaenorol.

**Oed** - Mae AYG ar ei uchaf ymhlith plant 15 oed ac maent 3.4 gwaith yn fwy nag ymhlith plant 14 oed.





**Rhyw** - Nid oes gwahaniaeth sylweddol yn y cyfraddau ar gyfer bechgyn o'i gymharu â merched.

**Ethnigrwydd** - Roedd Prydeinwyr Gwyn 2.2 gwaith yn fwy tebygol o ddechrau AYG na Phrydeinwyr nad ydynt yn wyn. Roedd Sipsiwn/Teithwyr ychydig yn fwy tebygol (20%) o ddechrau AYG.




**Amddifadedd** - Wrth i amddifadedd MALIC gynyddu, mae cyfradd AYG a ddechreuwyd hefyd yn cynyddu. Mae cynnydd sylweddol yng nghanran y myfyrwyr cymwys am PYADd sy'n dechrau AYG.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** - Mae cyfradd yr AYG a ddechreuwyd 2 waith yn uwch ar gyfer disgyblion ag ADY o'i gymharu â'r rhai sydd heb ADY.




Nifer fesul 1000 rhwng 5 a 18 oed

